Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 19.05.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn.

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow.

# DIGWYDDIAD: Diwrnod Busnes Gwynedd, 22 Mai 2023

Cyfle olaf i gofrestru ar gyfer Diwrnod Busnes Gwynedd! Siawns gwych i fusnesau Gwynedd dod i gwrdd a'i gilydd, sefydliadau cefnogi busnes ac i ddysgu am yr cefnogaeth sydd ar gael yn ogystal â rhannu straeon a syniadau i'w datblygu ar gyfer y dyfodol. Bydd y digwyddiad hybrid hwn yn cael ei gynnal ar 22 Mai 2023 – wyneb yn wyneb ym Mhant Du, Penygroes, LL54 6HE, neu ar-lein drwy Zoom. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/DiwrnodBusnesGwynedd2023

# DIGWYDDIAD: Cynhadledd ‘Mae Gogledd Cymru ar agor i Fusnes’ 1 Mehefin 2023

Mae tocynnau a stondinau masnach ar gael i’w harchebu yng Nghynhadledd Prifysgol Bangor “Mae Gogledd Cymru ar agor i Fusnes” i’w gynnal yn Venue Cymru, Llandudno LL30 1BB ar 1 Mehefin 2023 (9:00am-4:30pm).

I gofrestru a phrynu tocyn, ewch i: https://bit.ly/NWMBConference

# NEWYDDION: Defaid ‘Aml-Bwrpas’ newydd wedi bridio’n llwyddiannus yng Ngwynedd

Llongyfarchiadau i Arloesi Gwynedd Wledig ar y darllediadau diweddar o’u prosiect Defaid Amlbwrpas ar y BBC. Mae’r prosiect wedi bod yn treialu brîd newydd o ddefaid sy’n darparu gwlân o safon heb gyfaddawdu ar ansawdd a chynnyrch cig oen/cig dafad.

I ddarllen y stori ewch i: https://bit.ly/45a6WjV

I ddysgu mwy am y prosiect a’i ganfyddiadau ewch i:

https://www.arloesigwyneddwledig.cymru/prosiectau/defaid-amlbwrpas/

# NEWYDDION:Atgoffa, newidiadau pwysig i gyfrif ar lein TAW

O ddydd Llun, 15 Mai 2023, oni bai eich bod eisoes yn defnyddio meddalwedd sy’n gydnaws â Gwneud Treth yn Ddigidol (MTD), ni fyddwch yn gallu defnyddio eich cyfrif ar-lein TAW presennol mwyach i ffeilio eich ffurflenni TAW blynyddol. Defnyddiwch y ddolen isod am wybodaeth pellach:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/nodyn-atgoffa-pwysig-ar-newidiadau-ir-cyfrif-ar-lein-taw

## YMGYRCH: Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl 2023

Mae Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl yn ddigwyddiad blynyddol lle mae'r DU yn dod ynghyd i ganolbwyntio ar gyflawni iechyd meddwl da. Nod yr wythnos yw mynd i'r afael â stigma a galluogi pobl i ddeall a blaenoriaethu iechyd meddwl, a thema eleni yw Gorbryder. Am ragor o adnoddau a chymorth, defnyddiwch y ddolen isod:

https://www.mentalhealth.org.uk/cymru/our-work/public-engagement/mental-health-awareness-week

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/cy
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru